Adran Gwaith a Phensiynau

# Lwfans Gweini i bobl oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu drosodd

**Nodiadau**

**Mae'r llyfryn hwn yn rhoi help a gwybodaeth i lenwi ffurflen gais Lwfans Gweini.**

Os ydych eisiau help i lenwi'r ffurflen gais:

- ffoniwch ni ar **0800 731 0122**. Gallwn hefyd drefnu dehonglwyr os ydych yn ein ffonio neu'n ymweld â ni
- ffôn testun **0800 731 0317** os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw. Nid yw ein gwasanaeth ffôn testun yn derbyn negeseuon o ffonau symudol.

Neu gallwch gysylltu â sefydliad fel Cyngor ar Bopeth.

Mae'r llyfryn hwn ar gael mewn print bras neu braille. Ffoniwch **0800 731 0122**.

**AA1W notes** 09/23

# Cynnwys

**Pethau bydd eu hangen arnoch cyn i chi lenwi'r ffurflen gais** **3**

**Sut i lenwi'r ffurflen gais** **3**

**Beth yw Lwfans Gweini ac a allaf ei gael?** **4**

**Beth yw ystyr 'help â gofal personol' a 'goruchwylio'?** **5**

**Pryd gallaf wneud cais am Lwfans Gweini?** **5**

**Sut caiff Lwfans Gweini ei weithio allan?** **6**
- Cyfradd is Lwfans Gweini 6
- Cyfradd uwch Lwfans Gweini 6

**Sut mae eich anableddau'n effeithio arnoch** **6**

**Archwiliadau meddygol** **6**

**Mae'r nodiadau hyn yn rhoi mwy o help a chyngor i chi â rhai o'r cwestiynau yn y ffurflen gais** **7**

Cwestiwn 07: Os nad ydych yn wladolyn Prydeinig neu Wyddelig anfonwch eich pasbort, dogfennau teithio, ac unrhyw lythyrau eraill sydd gennych oddi wrth y Swyddfa Gartref atom ni? 7

Cwestiwn 08: A ydych yn byw ym Mhrydain Fawr fel arfer? 7

**Cwestiwn 12: Rheolau arbennig** **8**
- Gwneud cais o dan y rheolau arbennig ar gyfer rhywun arall 8
- Sut i wneud cais o dan y rheolau arbennig 8
- Sut i gael ffurflen SR1 8

**Cwestiwn 18: Eich salwch neu anableddau a'r driniaeth neu help rydych yn ei derbyn** **9**
- Caniatâd 9

**Cwestiwn 25: Y cymhorthion a'r addasiadau rydych yn eu defnyddio** **9**

**Cwestiwn 45: Bod yn yr ysbyty, mewn cartref gofal, neu rywle tebyg** **10**

**Cwestiwn 48: Sut rydym yn eich talu** **10**
- Os byddwn yn talu gormod o arian i chi 10

**Sut mae Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth** **10**

**Help a chyngor am fudd-daliadau eraill** **11**

**Beth fydd yn digwydd nesaf** **12**

# Pethau bydd eu hangen arnoch cyn i chi lenwi'r ffurflen gais

Cyn i chi lenwi'r ffurflen gais, byddai'n ddefnyddiol petasech yn cael rhai o'r pethau a restrir isod yn barod. Peidiwch â phoeni os nad ydynt i gyd gennych.

- Eich rhif Yswiriant Gwladol. Gallwch gael hyd i hwn ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol, llythyrau oddi wrth Adran Gwaith a Phensiynau, neu slipiau cyflog
- Enw eich Meddyg Teulu a chyfeiriad eich Meddygfa
- Manylion eich meddyginiaeth neu restr bresgripsiwn printiedig diweddar os oes gennych un
- Manylion unrhyw un rydych wedi eu gweld am eich salwch neu anabledd yn y 12 mis diwethaf, ar wahân i'ch Meddyg Teulu
- Eich rhif cofnod ysbyty (os ydych yn ei wybod). Gallwch gael hyd i hwn ar eich cerdyn neu lythyr apwyntiad
- Os ydych wedi bod yn yr ysbyty, cartref gofal neu le tebyg – y dyddiadau aethoch i mewn a dod allan, ac enw a chyfeiriad lle roeddech yn aros.

Efallai byddech yn ei gweld yn ddefnyddiol petasech yn cadw cofnod – ysgrifennu rhestr o bethau rydych wed bod angen help â hwy neu eu cael yn anodd dros ddiwrnod neu ddau. Os ydych yn cael diwrnodau da a diwrnodau drwg, neu mae eich anableddau yn amrywio dros amser efallai byddwch eisiau cadw cofnod o'ch anghenion dros ddiwrnod da a dros ddiwrnod drwg. Dechreuwch o'r amser rydych yn codi yn y bore, drwy 24 awr, i'r amser rydych yn codi'r bore canlynol. Gallwch anfon y cofnod â'r ffurflen os ydych eisiau.

Nid oes rhaid i chi lenwi'r ffurflen ar un tro. Cymerwch eich amser fel eich bod yn gallu disgrifio'r holl help sydd ei angen arnoch.

# Sut i lenwi'r ffurflen gais

Defnyddiwch inc du i lenwi'r ffurflen. Peidiwch â phoeni os nad ydych yn siŵr sut i sillafu rhywbeth neu rydych yn gwneud camgymeriad. Os ydych eisiau cywiro camgymeriad, croeswch ef allan â phen – peidiwch â defnyddio hylif cywiro.

# Beth yw Lwfans Gweini ac a allaf ei gael?

Mae Lwfans Gweini i helpu â chostau ychwanegol os oes gennych anabledd sy'n ddigon difrifol i olygu bod angen rhywun arnoch i helpu i edrych ar eich ôl.

Efallai cewch Lwfans Gweini os:

- ydych yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu drosodd pan fyddwch yn gwneud eich cais
- na allwch gael Lwfans Byw i'r Anabl
- na allwch gael Taliad Annibyniaeth Personol
- yw eich anabledd yn golygu eich bod angen help â gofal personol (gwelwch dudalen 5) neu fod angen rhywun i'ch goruchwylio er mwyn eich diogelwch eich hun neu rywun arall (gwelwch dudalen 5), ac
- mae angen yr help hwnnw arnoch ers 6 mis o leiaf.

Efallai nad ydych yn meddwl amdanoch eich hun fel anabl, ond os oes gennych gyflwr iechyd sy'n golygu bod arnoch angen y math o help rydym yn ddweud wrthych amdano yn y nodiadau hyn, efallai gallwch gael Lwfans Gweini:

- Gallai eich anabledd fod yn gorfforol, neu gallai fod gennych broblemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu, golwg, anawsterau clyw neu leferydd.
- Nid yw eich incwm neu gynilion yn effeithio ar Lwfans Gweini fel arfer (ond os ydych yn cael Lwfans Gweini Cyson â budd-dal arall, bydd hwn yn cael ei dalu yn ei le, neu ostwng y swm o'ch Lwfans Gweini).
- Nid yw Lwfans Gweini yn cael ei gymryd i ffwrdd o fudd-daliadau eraill a chredydau treth gallech eu cael.
- Fel arfer nid oes rhaid i chi fod wedi talu unrhyw gyfraniadau Yswiriant Gwladol i wneud cais am Lwfans Gweini.
- Nid oes rhaid i chi dalu treth ar y Lwfans Gweini rydych yn ei gael.
- Os byddwch yn cael Lwfans Gweini, efallai cewch arian ychwanegol â budd-daliadau eraill (gwelwch dudalen 11).

Hyd yn oed os nad ydych yn cael yr help sydd ei angen arnoch, gallwch gael Lwfans Gweini o hyd.

Os ydych o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth, efallai gallwch gael Taliad Annibyniaeth Personol yn lle. Cysylltwch â llinell ymholiadau Taliad Annibyniaeth Personol ar **0800 121 4433** os ydych am holi am Daliad Annibyniaeth Personol.

Gallwch ddarganfod mwy am Lwfans Gweini ar-lein yn **www.gov.uk/lwfans-gweini** neu drwy ffonio **0800 731 0122** – gwelwch **dudalen 1**.

# Beth yw ystyr ‘help â gofal personol’ a ‘goruchwylio’?

Mae ‘help â gofal personol’ yn golygu help o ddydd i ddydd â phethau fel:
- ymolchi (neu fynd i’r bath neu gawod neu ddod allan ohonynt)
- gwisgo
- bwyta
- cyrraedd neu ddefnyddio’r toiled, neu
- dweud wrth bobl yr hyn sydd ei angen arnoch neu wneud iddynt eich deall (os oes gennych broblem, fel anawsterau dysgu, sy’n gwneud hynny’n anodd).

Mae ‘goruchwylio’ yn golygu bod angen rhywun arnoch i wylio drosoch er mwyn osgoi niwed sylweddol i chi eich hun neu bobl eraill.

Gallai hyn olygu:
- pan fyddwch yn cymryd meddyginiaethau neu’n cael triniaeth
- eich cadw rhag perygl nad ydych yn ymwybodol ohono
- osgoi perygl y gallech ei wynebu oherwydd na allwch reoli’r ffordd rydych yn ymddwyn, ac
- eich atal rhag niweidio eich hun neu bobl eraill.

Efallai bod angen help arnoch â gofal personol neu oruchwyliaeth oherwydd:
- ei bod yn anodd i chi symud eich breichiau neu goesau neu nad oes gennych reolaeth drostynt
- gallwch fynd yn fyr eich anadl yn hawdd neu rydych mewn poen, neu
- mae gennych anawsterau ymddygiad, problemau iechyd meddwl neu rydych yn drysu.

# Pryd gallaf wneud cais am Lwfans Gweini?

Fel arfer gallwch gael Lwfans Gweini dim ond os bu angen help arnoch am 6 mis (oni bai eich bod yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig – gwelwch **dudalen 8**). Os byddwch yn gwneud cais ar unwaith, byddwn yn ymdrin â’ch cais cyn gynted â phosibl.

# Sut caiff Lwfans Gweini ei weithio allan?

Mae 2 gyfradd o Lwfans Gweini:
- cyfradd is, a
- cyfradd uwch.

Mae'r gyfradd y gallech ei chael yn seiliedig ar faint o help sydd ei angen arnoch.

## Cyfradd is Lwfans Gweini

Gallech gael cyfradd is Lwfans Gweini os oes angen y canlynol arnoch:
- help â gofal personol yn rheolaidd drwy gydol y dydd
- help â gofal personol yn ystod y nos
- rhywun i'ch goruchwylio'n barhaus drwy gydol y dydd er mwyn osgoi perygl sylweddol
- rhywun i wylio drosoch yn ystod y nos er mwyn osgoi perygl sylweddol, neu
- rhywun i fod gyda chi pan fyddwch yn cael dialysis.

## Cyfradd uwch Lwfans Gweini

Gallech gael y gyfradd uwch os oes angen y canlynol arnoch:
- help â gofal personol neu rywun i'ch goruchwylio drwy gydol y dydd ac yn ystod y nos hefyd

Efallai y gallwch ei gael hefyd os byddwch yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig (gwelwch dudalen 8).

Mae symiau penodol o arian ar gyfer Lwfans Gweini. Gallwch gael hyd i'r cyfraddau cyfredol ar-lein ar **www.gov.uk/cymraeg**

# Sut mae eich anableddau'n effeithio arnoch

Efallai nad ydych yn meddwl amdanoch eich hun fel anabl, ond os oes gennych gyflwr iechyd neu salwch sy'n golygu bod arnoch angen y math o help rydym yn ddweud wrthych amdano yn y nodiadau hyn, efallai gallwch gael Lwfans Gweini.

Gwyddom y gall anableddau effeithio ar bobl fwy ar un diwrnod nag ar ddiwrnod arall – cânt ddiwrnodau da a diwrnodau drwg. Gwyddom y gall eich anabledd amrywio dros gyfnod o amser. Ceisiwch ddweud cymaint ag y gallwch wrthym am sut mae'ch anabledd yn amrywio.

Gwyddom hefyd y gall yr help sydd ei angen yn ystod y dydd a'r help sydd ei angen yn ystod y nos fod yn wahanol. Mae cwestiynau ar wahân i chi ddweud wrthym am y gwahanol fath o help y gallai fod ei angen arnoch.

# Archwiliadau meddygol

Os na allwn gael darlun clir o sut mae eich salwch neu anableddau yn effeithio arnoch, efallai y byddwn yn gofyn i weithiwr gofal iechyd proffesiynol roi archwiliad i chi. Bydd Gwasanaethau Meddygol, sy'n trefnu archwiliadau meddygol ar ein rhan yn cysylltu â chi os oes angen archwiliad.

# Mae’r nodiadau hyn yn rhoi mwy o help a chyngor i chi â rhai o’r cwestiynau yn y ffurflen gais

### Cwestiwn 07 Os nad ydych yn wladolyn Prydeinig neu Wyddelig anfonwch eich pasbort, dogfennau teithio, ac unrhyw lythyrau eraill sydd gennych oddi wrth y Swyddfa Gartref atom ni?

Os ydych yn wladolyn Y Swistir neu unrhyw wlad arall yr AEE a restrir isod ac roeddech yn byw yn y Deyrnas Unedig (DU) cyn **1 Ionawr 2021 nid** oes rhaid i chi anfon unrhyw beth i ni.

- Awstria
- Gwlad Belg
- Bwlgaria
- Croatia
- Cyprus
- Y Weriniaeth Siec
- Denmarc (ag eithrio yr Ynysoedd Faroe a’r Ynys Las)
- Estonia
- Y Ffindir (ag eithrio yr Ynysoedd Aland)
- Ffranic (gan gynnwys Corsica, Guadeloupe, Martinique, Reunion a Guiana Ffrangeg ond nid Monaco)
- Yr Almaen
- Gibraltar
- Gwlad Groeg (gan gynnwys Crete ac Ynysoedd Gwlad Groeg)
- Hwngari
- Gwlad yr Ia
- Y Weriniaeth Iwerddon
- Yr Eidal (gan gynnwys Sicily, Sardinia ac Elba, ond nid Dinas y Fatican na San Marino)
- Latvia
- Liechtenstein
- Lithwania
- Luxembourg
- Malta
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Gwlad Pwyl
- Portiwgal
- Rwmania
- Slofacia
- Slofenia
- Sbaen (gan gynnwys Ynysoedd y Balearic, Ynysoedd Canary a chlofannau Sbaen o Ceuta a Melilla)
- Sweden

Os nad ydych yn ddinesydd Prydeinig neu Wyddelig ac mae eich statws mewnfudo yn newid, mae angen i ni wybod. Os ydych yn ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd, Ardal Economaidd Ewropeaidd neu’r Swistir ac yn byw yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 ond heb wneud cais am Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, rhaid i chi a’ch teulu wneud cais ar unwaith.

Os ydych wedi byw yn y DU am 5 mlynedd neu fwy yn olynol, gallwch wneud cais am statws preswylydd sefydlog. Os oes gennych statws preswylydd cyn-sefydlog, ni fydd hyn yn dod i ben. Gallai fod yn fuddiol i chi wneud cais am statws preswylydd sefydlog os ydych wedi byw yn y DU am 5 mlynedd neu fwy yn olynol.

### Cwestiwn 08 A ydych yn byw ym Mhrydain Fawr fel arfer?

I allu cael Lwfans Gweini fel arfer mae rhaid eich bod wedi byw yn y DU am ddwy flynedd allan o’r tair olaf a pheidio â bod yn destun rheolaeth mewnfudo. Efallai y byddwch yn gallu cwrdd â’r amod hwn os ydych yn, neu wedi bod yn, byw mewn gwladwriaeth yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu’r Swistir ac yn dod o dan y Cytundeb Ymadael.

Nid yw’r rheolau hyn yn berthnasol os ydych yn agosáu at ddiwedd bywyd ac yn gymwys o dan y rheolau arbennig.

Hefyd, os ydych wedi dod i Brydain Fawr o wlad sy'n rhan o'r AEE, neu'r Swistir, ac yn dod o dan y Cytundeb Ymadael, yn dibynnu ar eich amgylchiadau efallai na fydd rhaid i chi aros am y cyfnod hwn o amser cyn y gallwch gael Lwfans Gweini.

Os ydych chi neu aelod o'ch teulu yn byw mewn gwlad arall sy'n rhan o'r AEE, neu yn y Swistir, efallai y byddwch yn gallu cael Lwfans Gweini os yw'r DU yn gyfrifol am dalu eich budd-daliadau salwch.

Gallwch ddarganfod mwy am wneud cais am Lwfans Gweini pan fyddwch yn byw mewn gwlad arall sy'n rhan o'r AEE, neu yn y Swistir ar ein gwefa **www.gov.uk**

## Cwestiwn 12 Rheolau arbennig

Mae gennym reolau arbennig i bobl sy'n agosáu at ddiwedd bywyd. Mae hyn yn golygu pobl sydd â chlefyd cynyddol ac nad oes disgwyl iddynt fyw yn hwy na 12 mis arall.

Er mwyn i ni allu delio â'ch cais cyn gynted â phosibl, mae'n bwysig eich bod yn anfon ffurflen SR1 â'ch cais. Mae'r nodiadau isod yn dweud wrthych sut i gael ffurflen SR1.

Os na chewch y ffurflen SR1 erbyn yr amser byddwch wedi llenwi'r ffurflen gais, anfonwch y ffurflen gais atom ar unwaith. Anfonwch y ffurflen SR1 atom pan allwch.

Mae cael Lwfans Gweini o dan y rheolau arbennig yn golygu:
- cael cyfradd uchaf Lwfans Gweini
- cael eich talu yn syth (mae hyn yn golygu nad oes rhaid i chi aros hyd nes bod angen help arnoch ers 6 mis – ond efallai bydd newidiadau fel sydd ar dudalen 10 y nodiadau hyn yn effeithio ar faint o arian a gewch o hyd), a
- byddwn yn delio â'ch cais yn gyflymach.

**Gwneud cais o dan y rheolau arbennig ar gyfer rhywun arall**
Gallwch wneud cais o dan y rheolau arbennig ar ran rhywun arall. Nid oes rhaid i chi ddweud wrthynt eich bod yn gwneud cais ar eu rhan. Dywedwch wrthym amdanynt ar y ffurflen gais. Fel arfer, byddwn yn ysgrifennu atynt i ddweud a allent gael Lwfans Gweini, ond ni fyddwn yn dweud unrhyw beth am y rheolau arbennig.

Os ydych yn cwblhau'r ffurflen hon fel rhan o'ch swydd, nid oes angen i chi roi eich rhif Yswiriant Gwladol na'ch dyddiad geni i ni yng nghwestiwn 13.

**Sut i wneud cais o dan y rheolau arbennig**
Llenwch y ffurflen gais. Ticiwch y blwch yng nghwestiwn 12 y ffurflen gais i ddangos eich bod yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig.

Os na fyddwch yn ticio'r blwch hwn, fel arfer ni allwn eich talu o dan y rheolau arbennig.

**Sut i gael ffurflen SR1**
Gofynnwch i'ch meddyg neu arbenigwr am ffurflen SR1.

Mae hwn yn ffurflen am eich cyflwr meddygol. Ni fydd rhaid i chi dalu amdano. Gallwch ofyn i dderbynnydd y meddyg, nyrs, neu weithiwr cymdeithasol i drefnu hyn ar eich rhan. Ni fydd rhaid i chi weld y meddyg. Mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd yn darparu ffurflen SR1 yn gyflym iawn. Gofynnwch am yr adroddiad mewn amlen wedi ei selio os nad ydych am i unrhyw un ei weld.

## Cwestiwn 18 Eich salwch neu anableddau a'r driniaeth neu help rydych yn ei derbyn

**Caniatâd**
Efallai bydd angen i ni gysylltu a'ch Meddyg Teulu, neu'r bobl neu sefydliadau sy'n ymwneud a chi, am wybodaeth am eich cyflwr/cyflyrau neu driniaeth. Efallai bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth meddygol.

Mae hyn er mwyn i ni ddeall eich anghenion ar hyn o bryd. Nid oes rhaid i chi gytuno i ni gysylltu â'r bobl neu sefydliadau hyn, ond os na fyddwch yn cytuno, efallai na fyddwn yn gallu gwirio y gallwch gael y taliadau rydych yn gwneud cais amdanynt.

## Cwestiwn 25 Pa gymhorthion neu addasiadau rydych yn eu defnyddio?

Rydym am wybod os ydych yn defnyddio unrhyw gymhorthion neu addasiadau i'ch helpu i wneud pethau.

Er enghraifft:
- gallai offer codi, polyn mwnci, neu godwr gwely eich helpu i godi o'r gwely
- gallai comôd, sedd toiled wedi ei godi, neu ganllawiau eich helpu â'ch anghenion toiled
- gallai canllawiau bath, sedd cawod, neu offer codi eich helpu i gael bath neu gawod
- gallai siasbi braich hir, bachyn botwm, tynnwr sip, neu gymhorthydd hosan eich helpu i wisgo
- gallai lifft grisiau, cadair wedi ei chodi, cadair olwyn neu ganllawiau eich helpu i symud o gwmpas o dan do
- gallai ffon gerdded, ffram gerdded, baglau, neu goesau ffug eich helpu i symud o gwmpas
- gallai cytleri arbennig neu gwpan bwydo eich helpu i fwyta ac yfed, neu
- gallai cymhorthydd clyw, ffon testun, chwyddwydr, neu derfynell Braille eich helpu i gyfathrebu

Dywedwch wrthym os oes angen help arnoch i ddefnyddio'r cymhorthion neu addasiadau, ac os felly, pa help rydych yn ei gael gan berson arall.

### Cwestiwn 45 Bod yn yr ysbyty, mewn cartref gofal, neu rywle tebyg

Mae cartref gofal yn golygu cartref fel cartref gofal preswyl, cartref nyrsio, hosbis, neu rywle tebyg.

Mae angen i ni wybod os:
- ydych mewn ysbyty, cartref gofal neu rywle tebyg pan fyddwch yn gwneud eich cais, ac
- yw'r awdurdod lleol neu'r GIG yn talu unrhyw beth tuag at gost eich arhosiad.

Os dyfernir Lwfans Gweini i chi pan fyddwch mewn ysbyty, cartref gofal neu rywle tebyg, ni allwn eich talu hyd nes y byddwch yn gadael. Ond os ydych yn glaf neu'n breswylydd preifat sy'n talu am eich arhosiad heb gymorth gan gronfeydd cyhoeddus, byddwn yn gallu eich talu.

Efallai y byddwn yn gallu eich talu o hyd os ydych yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig ac rydych mewn hosbis.

### Cwestiwn 48 Sut rydym yn eich talu

**Os byddwn yn talu gormod o arian i chi**
Mae gennym yr hawl i gymryd unrhyw arian yn ôl rydym yn ei dalu i chi na ddylech fod wedi ei gael. Gall hyn fod oherwydd y ffordd mae'r system yn gweithio ar gyfer taliadau i mewn i gyfrif.

Er enghraifft, efallai eich bod yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i ni sy'n golygu y dylech gael llai o arian. Weithiau efallai na allwn newid y swm rydym wedi ei dalu i chi eisoes. Mae hyn yn golygu y byddwn wedi talu arian i chi na ddylech fod wedi ei gael. Byddwn yn cysylltu a chi cyn y byddwn yn adennill unrhyw arian.

## Sut mae DWP yn casglu a defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch, gallwn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:
- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- gwaith a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion fel mae'r gyfraith yn caniatáu i wirio'r wybodaeth rydych yn ei darparu ac i wella'n gwasanaethau. Gallwn roi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel mae'r gyfraith yn caniatáu, i amddiffyn rhag trosedd er enghraifft.

I ddarganfod mwy am ein dibenion a sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny ac am eich hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth ewch i
**www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol**

# Help a chyngor am fudd-daliadau eraill

Os ydych eisiau cyngor cyffredinol am unrhyw fudd-daliadau eraill gallech wneud cais amdanynt, gallwch:

- fynd i **www.gov.uk/cymraeg**
- cysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae'r rhif yn y llyfr ffon. Edrychwch o dan Canolfan Byd Gwaith.
- cysylltu â gwasanaeth cynghori fel Cyngor ar Bopeth.

## I gael gwybod am Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith

- Ewch ar-lein i **www.gov.uk/child-tax-credit** neu **www.gov.uk/working-tax-credit**
- Cysylltwch â Llinell Gymorth Credyd Treth
- Ffôn: **0300 200 1900**
- Ffôn testun: **0345 300 3909**
- Os oes angen ffurflen neu help yn Saesneg arnoch, ffoniwch **0300 300 3900**

## I gael gwybod am Bensiwn y Wladwriaeth

- Ewch ar-lein i **www.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth-newydd**

## I gael gwybod am Gredyd Pensiwn

- Ewch ar-lein i **www.gov.uk/credyd-pensiwn**
- Cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn
  - Ffôn: **0800 99 1234**
  - Ffôn testun: **0800 169 0133**

## A allwch gael Credyd Pensiwn?

Mae Credyd Pensiwn yn arian a all helpu pobl dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ychwanegu at eu hincwm wythnosol hyd at isafswm. Os ydych yn gymwys i gael Credyd Pensiwn, gallech hefyd fod yn gymwys i gael budd-daliadau fel Budd-dal Tai, cymorth Treth Cyngor, Taliadau Tywydd Oer, a chymorth â chostau gwasanaethau'r GIG. Os ydych yn 75 oed neu drosodd ac yn cael Credyd Pensiwn, byddwch hefyd yn cael trwydded deledu am ddim.

Ewch i **www.gov.uk/credyd-pensiwn** i:

- weld a allwch wneud cais am Gredyd Pensiwn
- defnyddio ein cyfrifiannell ar-lein am ddim i weld faint o Gredyd Pensiwn gallwch ei gael, a
- gwneud cais ar-lein am Gredyd Pensiwn.

## Lwfans Gofalwr a Chredyd Gofalwr

Os ydych yn gwneud cais am Lwfans Gofalwr ac mae rhywun yn gofalu amdanoch, darllenwch y daflen wybodaeth am Lwfans Gofalwr a Chredyd Gofalwr rydym wedi ei hanfon atoch â'r pecyn cais hwn.

# Beth fydd yn digwydd nesaf

Llenwch y ffurflen a'i phostio'n ôl atom.

Ysgrifennwch y dyddiad rydych yn postio eich ffurflen atom yn y blwch hwn:

| / / |
|---|

Peidiwch ag anfon y llyfryn Nodiadau hwn yn ôl â'ch ffurflen gais.

Gallwn anfon y daflen hon atoch mewn fformatau eraill, fel print bras.

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sichrau bod y wybodaeth yn gywir ar fis Ebrill 2018. Mae'n bosibl bydd rhywfaint o'r wybodaeth yn newid dros amser.